# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 29.01.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams
Y Cynghorwyr Angela Russell, Louise Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. CAIS MR A. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat. Eglurwyd bod datganiad o gollfarnau yn cyfeirio at droseddau perthnasol. Amlygwyd bod yr ymgeisydd yn methu a bod yn bresennol a bod oblygiadau dros ei absenoldeb wedi ei egluro yn glir iddo. Nodwyd hefyd bod yr Uned Trwyddedu wedi derbyn llythyr yn mynegi geirda i'r ymgeisydd.

Penderfynodd y Pwyllgor ystyried y cais yn absenoldeb Mr A. Mynegwyd siom nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol i gefnogi ei gais.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau perthnasol i'r cais:

- *'Ystyrir yn ddifrifol unrhyw euogfarnau yn ymwneud ag anonestrwydd.*
- *Yn gyffredinol, dylai cyfnod o leiaf tair i bum mlynedd fynd heibio heb dderbyn euogfarnau cyn y gellir ystyried cais'*

Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor wrthod y cais. Rhai o'r collfarnau yn parhau mewn bodolaeth ac felly yn gynamserol i ganiatau cais am drwydded.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu i anfon llythyr yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:30pm a daeth i ben 12:55pm